Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Y Ganllwyd
# Ganllwyd
# Dolgellau
# Gwynedd
# LL40 2TG

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 17/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Y Ganllwyd wedi'i lleoli yng nghanol y pentref sydd ychydig filltiroedd o dref Dolgellau yng Ngwynedd. Daw mwyafrif y disgyblion o'r pentref ei hun a'r ardaloedd gwledig o gwmpas.

Mae 19 o ddisgyblion rhwng pedair ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, ac un disgybl o oed meithrin. Mae'r niferoedd wedi parhau yn gymharol gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae dau ddosbarth o oed cymysg yn cael eu haddysgu gan ddau athro amser llawn. Mae'r disgyblion yn cael eu derbyn yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Cymraeg yw'r brif iaith yng nghartref tua 50% o'r disgyblion. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth i ddysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r ysgol wedi adnabod oddeutu 45% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd yn uwch o lawer na'r ffigwr cenedlaethol. Mae nifer fach iawn o ddisgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae tua 10% o'r disgyblion yn hawlio cinio am ddim.

Penodwyd y pennaeth yn Ionawr 1992.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ionawr 2008.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Y Ganllwyd yn 2013-2014 yw £9,541. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,616 a'r lleiafswm yw £2,936. Mae Ysgol Y Ganllwyd yn y pedwerydd safle o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- y disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn;
- y disgyblion yn gwrtais ac yn ymddwyn yn dda;
- y disgyblion yn meddu ar agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu;
- yr ysgol yn darparu amrywiaeth eang o brofiadau diddorol i'r disgyblion;
- yr addysgu yn dda ar draws y gwersi;
- darpariaeth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol; a bod
- yr ysgol yn gymuned glos a gofalgar.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd bod:

- yr holl staff, gan gynnwys y cymorthyddion, yn cydweithio'n effeithiol fel tîm;
- y gweithdrefnau hunanarfarnu yn adnabod meysydd addas i dderbyn sylw;
- y cynllun gwella yn cynnig cyfeiriad priodol i ddatblygiad pellach yr ysgol;
- sylw da i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol;
- ethos cadarn o berthyn o fewn yr ysgol;
- cysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol; a bod
- y rhieni a'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol.

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb y disgyblion

A2 Datblygu'r gweithdrefnau i asesu ac olrhain cynnydd y disgyblion ar draws yr ysgol

A3 Cryfhau'r cynllunio i ddatblygu medrau'r disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm

A4 Ehangu'r cyfleoedd i ddatblygu'r disgyblion mwyaf abl a thalentog fel dysgwyr annibynnol

A5 Sicrhau bod yr adroddiadau monitro yn ddigon arfarnol i ddylanwadu'n llawn ar y cynllunio strategol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, er nad oes yna ddisgyblion ym Mlwyddyn 2, mae'r disgyblion ieuengaf yn gwrando'n dda ac yn sgwrsio'n eithaf hyderus wrth drafod eu gwaith. Maent yn dysgu synau llythrennau a'u ffurfio'n gywir gan greu geiriau a brawddegau syml ar destunau cyfarwydd. Maent yn cymryd diddordeb mewn llyfrau ac yn datblygu eu medrau darllen sylfaenol yn effeithiol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llythrennedd y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn ymateb ar lafar yn ddeallus gan fynegi barn yn hyderus. Maent yn darllen yn rhugl ac yn ystyrlon yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n estynedig at wahanol bwrpasau yn eu gwersi iaith ac ar draws agweddau'r cwricwlwm, er enghraifft mewn daearyddiaeth. Maent yn defnyddio medrau atalnodi a sillafu gyda chywirdeb cynyddol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae medrau rhifedd cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn dangos dealltwriaeth briodol o waith rhif amrywiol, siâp a thrin data. Maent yn casglu gwybodaeth ar ffurf diagramau a thablau cyn creu graffiau pwrpasol ar destunau megis hoff fwydydd a diodydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni gwaith sy'n cwmpasu rhif, rhesymu, mesur, siâp a thrin data yn effeithiol. Maent yn cymhwyso'u medrau trwy waith thema, megis cyfrifo tymheredd, a chyfraddau anweddu a chyddwyso mewn gwyddoniaeth. Maent yn ymgymryd â'r gwaith hwn yn hyderus ac i'r un safon â'u gwersi mathemateg.

Gwna rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol ddefnydd da o'u medrau meddwl a datrys problemau mewn amrywiaeth o gyd-destunau.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau.

Nid oes adroddiad data manwl ar gyflawniad disgyblion y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2. Mae hyn oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd yn fechan iawn i adrodd arnynt heb adnabod disgyblion unigol.

Yn asesiadau 2012 a 2013, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda â chyfartaleddau ysgolion tebyg yn gyson. Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol dros bedair blynedd yn fwy anwastad ond yn cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg yn y rhan fwyaf o flynyddoedd.

**Lles: Digonol**

Mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel yn yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth briodol o nodweddion bwyta’n iach a ffitrwydd a’r effaith y mae hyn yn ei chael ar y corff.

Mae’r disgyblion yn mwynhau eu dysgu ac yn gweithio’n gynhyrchiol ar y cyd ag eraill. Mae eu hymddygiad yn dda ac maent yn gwrtais i’w gilydd ac i oedolion.

Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi bod yn y 25% isaf o blith ysgolion tebyg ym mhob un o’r pum mlynedd diwethaf. Mae’r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae aelodau’r cyngor ysgol yn ymfalchïo yn eu rôl ac yn cynrychioli’r ysgol gyfan. Maent wedi cyfrannu’n benodol at y penderfyniad i sefydlu siop ffrwythau ac wedi dylanwadu ar y dewis o wisg ysgol. Yn dilyn gwaith ymchwil, maent wedi sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi amrywiaeth eang o elusennau.

Trwy weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol, mae’r disgyblion yn ennill ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd sy’n eu paratoi yn dda tuag at fywyd tu allan i’r ysgol. Maent wedi cydweithio’n llwyddiannus gydag aelodau o’r gymuned yn yr ymgyrch i leihau cyflymdra’r ceir sy’n teithio heibio’r ysgol. Mae’r disgyblion yn cyfrannu’n gyson i ystod o weithgareddau yn yr ardal leol a’r gymuned ehangach megis eisteddfodau a chyngherddau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae’r ddarpariaeth yn cwrdd â’r gofynion statudol. Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol ac ymweliadau yn cyfoethogi’r cwricwlwm ymhellach.

Mae trefn briodol i gyflwyno’r cwricwlwm trwy gyfres o themâu sy’n addas i oed a diddordebau’r disgyblion. Mae cynnwys y themâu yn seiliedig ar raglenni gwaith manwl sy’n sicrhau sylw addas i feysydd a phynciau’r cwricwlwm.

Mae’r athrawon yn cynllunio profiadau effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio yn ddigon pendant i sicrhau dilyniant a pharhad cyson yn y medrau ar draws y cwricwlwm. Mae’r ysgol wrthi’n cymhwyso’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd i’r cwricwlwm a’r cynlluniau.

Mae cynllunio manwl yn sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw’r cynllunio ar gyfer y disgyblion mwy abl a thalentog yn sicrhau digon o gyfleoedd iddynt ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae darpariaeth o safon dda yn datblygu medrau llythrennedd Cymraeg y disgyblion yn llwyddiannus ar draws yr ysgol. Mae ystod o gyfleoedd gwerthfawr yn datblygu gwybodaeth y disgyblion o nodweddion diwylliannol, amgylcheddol a hanesyddol Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy ac o'u rôl fel dinasyddion byd-eang. Gwneir hyn drwy brofiadau priodol ar draws y cwricwlwm, cysylltiadau buddiol gyda gwledydd tramor a'r cyfleoedd i'r disgyblion gynorthwyo elusennau perthnasol.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol gadarn ac yn ei defnyddio'n ddilys i gynllunio tasgau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Mae defnydd da o adnoddau, yn cynnwys TGCh, yn sbarduno'r dysgu ac yn atgyfnerthu'r tasgau. Mae yna bwyslais clir ar ddysgu'n ymarferol ar draws yr ysgol. Mae'r berthynas waith dda rhwng y disgyblion a'r staff yn creu amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Yn y rhan fwyaf o sesiynau, mae ffocws priodol ar adeiladu ar waith blaenorol, rhyngweithio pwrpasol rhwng athro a disgybl a chyfleoedd adeiladol i'r disgyblion gymhwyso'u medrau. Fodd bynnag, mewn ychydig sesiynau, mae'r cyflwyniadau hir yn effeithio ar amseru'r wers a'r cyfle i gloi'n bwrpasol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd adeiladol o'r wybodaeth i gynllunio tasgau addas ac i ddarparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw. Mae'r ysgol yn cryfhau'r trefniadau ond mae'n rhy gynnar i arfarnu beth yw effaith y gwaith hwn.

Mae athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn briodol ac mae'r sylwadau o gymorth iddynt wybod beth yw'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae cyfleoedd addas i'r disgyblion asesu eu gwaith ac i lunio eu targedau personol ar y cyd â'r athrawon. Mae prosesau safoni a chymedroli yn cael eu defnyddio ond nid ydynt wedi eu datblygu'n llawn o fewn yr ysgol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth yn gyson am gynnydd a datblygiad eu plant. Mae'r adroddiadau blynyddol yn bodloni'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol. Mae cyfleoedd addas i hybu iechyd a ffitrwydd y disgyblion drwy weithgareddau ar draws y cwricwlwm a'r rhaglen addysg gorfforol. Mae gan yr ysgol y trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae profiadau dysgu o ansawdd da yn hybu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae sesiynau addoli ar y cyd, amser cylch ac ystod o weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yn cyfrannu'n gadarnhaol i'r meysydd hyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae cyfathrebu effeithiol a chysylltiadau da gydag asiantaethau cymorth, megis gwasanaeth lles, seicolegwyr addysg, a gwasanaethau meddygol a chymdeithasol, i gefnogi disgyblion, athrawon a rhieni pan fo angen.

Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae anghenion y disgyblion yn cael eu nodi'n gynnar a chamau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau cefnogaeth addas. Mae'r cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir ac yn cael eu hadolygu'n briodol gyda'r rhieni. Mae'r disgyblion yn cael eu cynnal yn dda gan gymorthyddion profiadol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch cynhwysol yn bodoli yn yr ysgol gyda disgyblion yn derbyn cefnogaeth o ansawdd da. Mae pob disgybl yn derbyn mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau amrywiol yr ysgol. Mae merched a bechgyn yn cael cyfleoedd i brofi gweithgareddau traddodiadol ei gilydd, fel rygbi neu bêl-rwyd, ac yn elwa o hyn.

Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau dysgu, gan gynnwys adnoddau TGCh, o safon dda.

Mae'r adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cadw'n lan a thaclus. Nid oes neuadd benodol na chae chwarae ond mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o gyfleusterau lleol megis neuadd y pentref a chanolfan hamdden. Mae maes chwarae addas i'r disgyblion sy'n cynnwys ardal ddysgu allanol y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gydwybodol y pennaeth yn sicrhau bod y plentyn yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r cyfathrebu cyson gyda'r staff, rhieni a'r llywodraethwyr yn nodwedd gref. Mae'r tîm addysgu yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhannu'r un gwerthoedd.

Mae yna swydd ddisgrifiadau cyfredol i holl staff yr ysgol sy'n sicrhau ymwybyddiaeth glir o'u cyfrifoldebau. Mae yna brosesau rheoli perfformiad cadarn yn eu lle gan gynnwys gosod targedau addas i'r cymorthyddion. Mae hyn yn arwain at adnabod cyfleoedd gwerthfawr i ddarparu hyfforddiant pellach i'r cymorthyddion i ddiweddaru a dysgu medrau newydd sydd o fudd i holl blant yr ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cyflawni ei rôl fel ffrind beirniadol yn effeithiol. Mae'r aelodau yn ymwybodol o flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella trwy ddehongli data, ystyried gofynion cenedlaethol a thrafod â'r staff. Maent yn ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau'r disgyblion o fewn y rhaglen fonitro. Mae'r llywodraethwyr yn sicrhau bod gan yr ysgol yr ystod addas o bolisïau. Fodd bynnag, nid yw'r holl ddogfennau yn cael eu diweddaru yn ddigon cyson i gyfateb â sefyllfa gyfredol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae athrawon yn dechrau datblygu'r defnydd o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd mewn agweddau o'u cynllunio. Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd yn derbyn sylw

teilwng yn y modd mae'r staff yn cydweithio ag eraill o fewn rhwydweithiau i ddatblygu'r ddarpariaeth.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y pennaeth wybodaeth sicr am gryfderau'r ysgol a'r prif feysydd i'w gwella. Mae gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer arfarnu agweddau ar y ddarpariaeth a chynnydd y disgyblion. Maent yn ymgorffori safbwyntiau'r holl staff, y llywodraethwyr a'r cyngor ysgol. Mae yna gyfleoedd ffurfiol i rieni fynegi barn ar rai agweddau penodol megis darllen, profiadau dysgu ac ymddygiad disgyblion.

Mae'r rhaglen fonitro yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth yn cynnwys data perfformiad, canfyddiadau o arfarnu gwaith y disgyblion ac arsylwi gwersi, a cheisio barn swyddogion yr awdurdod lleol. Mae'r adroddiadau monitro yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella o ran safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, nid yw'r cynnwys yn ddigon arfarnol bob amser i ddylanwadu'n llawn ar y cynllunio strategol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddogfen gynhwysfawr. Mae cysylltiadau addas rhwng yr adroddiad hunan arfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella. Mae'r cynllun yn nodi targedau priodol ynghyd â chamau gweithredu, meini prawf llwyddiant, y costau a chyfrifoldebau unigolion. Mae'r cynllun yn ddogfen weithredol sydd yn sicrhau sylw effeithiol i agweddau megis datblygu medrau darllen a rhifedd y disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag amrediad o bartneriaid strategol sydd yn cael effaith fuddiol ar les a chynnydd y disgyblion.

Mae partneriaeth agos gyda'r rhieni. Maent yn gefnogol iawn o'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at lawer o weithgareddau, gan gynnwys mentrau codi arian a chefnogi profiadau dysgu megis ymweliadau.

Mae'r cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned leol yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion chware rhan flaenllaw mewn ystod o weithgareddau, megis gwasanaethau, cyngherddau a sioeau. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ehangu ymwybyddiaeth y disgyblion o'u cymuned.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau allanol, megis Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'r Parc Cenedlaethol, er mewn datblygu diddordeb a gwerthfawrogiad y disgyblion o'u hamgylchfyd lleol.

Mae cydweithio adeiladol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol ac mae'r trefniadau pontio yn cynorthwyo disgyblion i ymgartrefu'n gyflym yn eu hamgylchedd newydd.

Mae defnydd priodol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn codi safonau ymhellach.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag ysgolion eraill y cylch er mwyn ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r mabolgampau blynyddol yn enghraifft effeithiol o

hyn. Mae cydweithio ar brosiectau penodol, megis y prosiect dawns, yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth ac ar safonau'r disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff sydd â chymwysterau addas i ymgymryd â'r gwaith yn effeithiol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'i gilydd ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad a datblygiad y disgyblion. Mae'r holl staff yn elwa ar y cyfleoedd i dderbyn hyfforddiant proffesiynol pellach. Mae trefniadau priodol i sicrhau amser addas i'r athrawon ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol wedi bod yn rhan o nifer o rwydweithiau dysgu proffesiynol. Mae hyn wedi galluogi'r athrawon i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau ac i rannu arfer dda. Mae'r ffocws ar y defnydd o fatiau mathemateg ac ehangu adnoddau darllen yn enghreifftiau o hyn. Mae adnoddau'r ysgol yn cael eu defnyddio'n briodol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu.

Mae'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethol yn cydweithio'n dda wrth osod a monitro'r gyllideb. Mae'r gyllideb yn rhoi trosolwg clir o wariant. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'i chyllideb i hyrwyddo addysg effeithiol ac i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r cynllun gwella.

O ystyried safonau'r disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Nid oes adroddiad data manwl ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 oherwydd bod nifer y disgyblion a aseswyd yn rhy fychan i adrodd arnynt heb adnabod disgyblion unigol.

Rhaid trin canlyniadau asesiadau athrawon gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o ddisgyblion mewn blwyddyn, a’r canran o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gallu effeithio’n sylweddol ar berfformiad yr ysgol o un flwyddyn i’r llall.

Dros gyfnod o ddwy flynedd, mae cyflawniad y disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deiliant disgwyliedig (deilliant 5) a’r deilliant uwch (deilliant 6) yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg ym mhob maes a aseswyd.

Dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad y disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn anwastad. O gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad y disgyblion mewn gwyddoniaeth yn y 25% uchaf yn gyson. Mewn Cymraeg a Saesneg, mae yn y 25% uchaf yn y rhan fwyaf o flynyddoedd. Mewn mathemateg, mae perfformiad y disgyblion yn amrywio rhwng y 25% uchaf a’r 25% isaf. Mae canran y disgyblion sy’n cyflawni’r lefelau uwch (lefel 5 neu uwch) yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn dwy allan o’r pedair blynedd ond mae’n anwastad yn y ddwy flynedd arall.

Mae’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni eu targedau. Oherwydd niferoedd bychain, nid oes modd cymharu cyflawniad y merched a’r bechgyn yn deg. Nid oes modd cymharu ychwaith cyflawniad disgyblion sydd â’r hawl i dderbyn cinio am ddim gyda’u cyfoedion.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 98% | 2% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 13 | 13<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Emma Rofe | Arolygydd Cofnodol |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Bleddyn | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ceri Parry | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.